**Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – Cynghorau Caerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Anifeiliaid sy'n Perfformio – Amodau Trwydded**

**Fersiwn 1 diweddarwyd 14.2.23**

**1.** Rhaid i bob anifail y mae'r dystysgrif hon yn berthnasol iddo:
  **a)** Gael deiet addas;
  **b)** Cael amgylchedd addas a digonol (a all amrywio'n dibynnu ar amodau tywydd a gofynion rhywogaethau unigol);
  **c)** Cael eu gwarchod rhag poen, anafiadau, clefydau a dioddef;
  **d)** Cael ymddwyn yn naturiol; a
  **e)** Chael y rhyddid i fyw gyda rhywogaethau eraill neu ar wahân iddynt, yn dibynnu ar y rhywogaeth.

**2.** Rhaid i'r dystysgrif gofrestru hon neu gopi ohoni fod ar gael a chael ei chyflwyno i'w harolygu ymhob arddangosfa neu ar unrhyw adeg arall y gofynnir amdani gan swyddog awdurdodedig.

**3.** Rhaid i gyfleusterau golchi/glanhau dwylo fod ar gael bob amser lle deuir i gysylltiad ag anifeiliaid.

**4.** Ni chaiff unrhyw un dan 16 oed fod yn gyfrifol am unrhyw anifeiliaid cofrestredig ar unrhyw adeg.

**5.** Ni chaiff unrhyw aelod o'r cyhoedd gael ei adael ar ei ben ei hun gydag unrhyw anifail cofrestredig ar unrhyw adeg.

**6.** Ni chaiff unrhyw anifail ei ddefnyddio mewn unrhyw arddangosfa os yw'n dioddef o glefyd heintus, neu fod amheuaeth resymol ei fod wedi dod i gysylltiad ag anifeiliaid eraill â chlefyd heintus, a allai arwain at heintio pobl neu unrhyw anifeiliaid eraill. Rhaid ei symud i gyfleusterau ynysu a rhaid gwneud popeth angenrheidiol i atal lledaeniad clefyd heintus. D.S.: Rhaid ceisio cyngor milfeddyg ar frys os amheuir bod unrhyw glefyd heintus yn bresennol.

**7.** Yn achos anifeiliaid â chlefyd heintus, neu sy'n dod i gysylltiad ag anifeiliaid eraill sydd â chlefyd heintus a allai gael ei drosglwyddo i bobl, rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu ar y cyfle cyntaf posibl.

**8.** Lle cedwir anifeiliaid mewn cewyll, cutiau, blychau neu unrhyw gynwysyddion eraill a roddir ar ben cewyll, cutiau, blychau neu gynwysyddion eraill, rhaid sicrhau nad oes modd i ddŵr, bwyd nac ysgarthion ddisgyn ar na heintio'r anifail/anifeiliaid na'r ardal oddi tanynt. Rhaid i awyru priodol fod ar waith bob amser a bod yn ddigonol i'r rhywogaeth benodol.

**9.** Rhaid cadw pob cofnod i bob anifail/rhywogaeth cofrestredig unigol:

a) Nifer yr anifeiliaid;
b) Caffaeliadau, genedigaethau, marwolaethau, gwerthiannau ac anifeiliaid yn dianc;
c) Unrhyw fanylion bridio;
d) Achos unrhyw farwolaeth yn ogystal â chasglu stoc farw; ac
e) Iechyd parhaus ac unrhyw fanylion/triniaeth filfeddygol i'r anifeiliaid cofrestredig.